



Y CYFAMMOD DISIGL.

“Canys y mynyddoedd a giliant, a'r brynau a symudant :
eithr fy nhrugaredd ni chilia oddi wrthyt, a chyfammod fy
hedd ni syfl, medd yr Arglwydd sydd yn trugarhau wrthyt.”—
ESAIAH liv. 10.

TON—“*Old Darby.*”

Chwi gedyrn binaclau y ddaear,
Gyd-oeswch â huan a lloer ;
Safasoch effeithiau difaol
A threulfawr hin wresog, ac oer ;
A wel'soch yr oll er y dechreu,
Hil Adda, yn de ar ol tô !
A'r diluw, aruthrol lifadau,
A'ch cuddiodd yn nyddiau'r hen Nô !

Chwi heriwch alluoedd elfenol
Feraon trag'wyddol o'r bron !
Taranau, mellt saethawl, corwyntoedd,
A chenllif dyfnderoedd y don !
Ond gwelat ryw ddiwrnod gyferbyn,
A ellwch chwi sefyll pryd hyn ?
Y ddaear a ymchwel fel meddwyn,
A nerthoedd y nefoedd a gryu !

Ti'r Aran, a'r Wyddfa gyrhaeddfawr,
 Chwi neidiwch yn awr hyd y ne!
 Mynyddoedd yr Andes ymbrangiant,
 Fel hyrddod y llamant o'u lle!
 I hofian fel brain yn yr entrych,
 Chwi chwythir âg anadl yr Iôr!
 A'ch twrf megys myrdd o daranau
 Fydd gymmysg â rhuad y môr!

Y cloion, a'r c'lymau cadarnaf,
 Ddattodant fel dyfroedd yn awr,
 Y temlau, a'r tyrau uchelfrig,
 Ysgydwir yn gandryll i'r llawr!
 Ond ped âi yn deilchion i'r dyfnder
 O'i chylchoedd y belen 'rwy'n byw,
 Ymollwng ar ddamchwa drag'wyddol,
 Nid ysgog cyfammod fy Nuw!

Tymhestloedd o dân ac o frwmstan,
 O'r nefoedd dylifant i lawr;
 Rhyferthwy o ddiluw brwmstanaidd
 Ysguba bob congl yn awr!
 Y nefoedd a'r ddaear ant heibioi,
 Yn adeg nos Sadwrn y byd:
 Ond rhwymau'i gyfammod sydd eto
 Yn para'n ddiysgog o hyd.

Yr annuw a welaf mewn cyffro,
 Am rywle i ddiange ar ffo!
 A'i floedd am fynyddoedd i'w guddio
 A'i dremyn yn dduach na'r glô!
 Cnoi'i dafod wna'r truan gan arswyd
 Pob aelod fel deilen a gryn;
 Ond llechu dan nawdd y cyfammod
 Wna'r Cristion yn dawel pryd hyn.

Fau yma mae'n eistedd yn llonydd,
 Digyffro, o gyrhaedd pob gwg,
 Yn gweled cynhebrwng holl natur,
 A'r nefoedd yn *mournio* mewn mwg,

Ar un o dalfryniau gwyrddleision
 Gwlad tragwyddoldeb bell draw,
 Gan dreblu yr Anthem na dderfydd,
 A thelyn o aur yn ei law.

Dych'mygaf ei weled ef wedi'n,
 Draw, draw, y'mhen oesau ri'r dail
 Yn nghanol rhyw gwmni clauer wynion,
 A'i wisg yn ddysgleiriach na'r haul ;
 Yn gwaeddi ar ludw'r hen ddaear
 (Heb hanes gwyrddlesni na choed,)
 "Cyfammod fy Nuw i sydd eto
 Mor gadarn ei dir ag erioed."

Mae'n gofyn wrth edrych o'i gwmpas,
 "Ple'r ydych, amodau y llawr ?
 A luniwyd rhwng penau coronog,
 Ple'r ydych ? ple'r ydych chwi'n awr ?
 Pa le mae yr holl gyfammodau
 Wnaed yma gan ddyn gyda dyn ?"
 Ond tawel ddystawrwydd pruddglwyfus
 Sisialai, "Nid oes yma'r un."

Mi'u clywaf wrth esgyn i fyny,
 Drwy oror ysplenydd y gwawl,
 Yn taro ar dant y cyfammod,
 Ryw ganiad sydd danllyd o fawl,
 Nes ydyw mynyddoedd bytholfyd
 Yn dawnsio wrth adsain eu cân ;
 Ond prysur diflanant o'm golwg,
 Diflanant, diflanant yn lân.

Y Gŵr a fu gynt o dan hoelion,
 Dros ddyn pechadurus fel fi,
 A yfodd y cwpan i'r gwaelod,
 Ei hunan ar ben Calfari ;
 Ffynhonell y cariad trag'wyddol,
 Hen gartref meddyliau o hedd,
 Dwg finau i'r unrhyw gyfammod,
 Na thorir gan angeu na'r bedd.

Y FARN A FYDD.

*"Ond gwybydd y geirho Duw di i'r farn am hyn
oll."*—PREG.

GWNA'N llawen, ŵr, o fewn dy fro,
A chwardd tra dalio'r dydd ;
Nac ofna neb, ac na thristâ,
Ond cofia'r farn a fydd !

Mwynha bob pleser, myn dy chwant,
Na ffrwyna'r trachwant rydd ;
Mewn rhwysg a gloddest treulia'th dda,
Ond cofia'r farn a fydd !

Diystyra grefydd a phob da,
A phoera'n wyneb ffydd ;
Oddi wrth foesoldeb ymbellâ,
Ond cofia'r farn a fydd !

Myn bob difyrwch yn mhob man,
Gwna'n ddyddan yn dy ddydd ;
Mewn gwîn a gwleddoedd llawenha,
Ond cofia'r farn a fydd !

Na wrando ar un cynghor cu,
Na'r ymresymu sydd ;
Dirmyga'r ddeddf, a thor bob darn,
Ond cofia'r farn a fydd !

Cais bob llawenydd, na lwfrha,
Ymhoywa, rhodia'n rhydd ;
Gwna orchymynion Duw yn sarn,
Ond cofia'r farn a fydd !

Y farn ! y farn ! y farn a fydd !
O ! ryfedd ddydd a ddaw ;
Y farn ! y farn ! y farn a fydd !
A'th ddyry'n brudd mewn braw.

Clynog.

EBENEZER THOMAS.

Argraffwyd gan H. Humphreys, Caernarfon.